ECAD5013-C

Ble ydw i'n addysgu?

Where am I teaching?

S2

Sut byddaf yn cael fy asesu?

How will I be assessed?

www.athrofa.cymru

ECAD5013-C: Aseiniad

ECAD5013-C: Assignment

Amcanion
Aims

- Beth yw’r aseiniad?
- Beth sydd angen i mi ei wneud?
- Sut ydw i’n llwyddo?

- What is the assignment?
- What do I need to do?
- How do I succeed?

Beth ydyw?

What is it?

- **Cydran Asesu 1 - 100%**
- Ymateb ysgrifenedig - Cynnig ar gyfer prosiect cymunedol ysgol (2750 gair).
- Erbyn: 20/04/26

- **Assessment Component 1 - 100%**
- Written response - A proposal for a school community project (2750 words).
- By: 20/04/26

Teitl yr aseiniad

- Gan ddefnyddio’ch profiadau o addysgu dysgwyr 7-11 oed, ysgrifennwch gynnig ar gyfer prosiect cymunedol ysgol.
- Yn eich cynnig, mae angen i chi wneud y canlynol:
- Nodwch ffocws ar gyfer eich prosiect yn seiliedig ar eich profiadau o addysgu dysgwyr 7-11 oed
- Yn ddelfrydol, bydd y ffocws yn gysylltiedig gyda thema sydd wedi codi fel rhan o astudiaethau'r modiwl hwn
- Cyfiawnhewch pam rydych chi wedi dewis y ffocws hwn
- Gwerthuswch y cynnig yn feirniadol a'i effaith a'i ganlyniadau arfaethedig trwy wneud cysylltiadau â llenyddiaeth academaidd a phroffesiynol
- Gwnewch ddadansoddiad SWOT o'ch cynnig (i'w gynnwys fel atodiad).

Assignment title

- Using your experiences of teaching 7–11-year-old learners, write a proposal for a school community project.
- In your proposal, you need to do the following:
- Identify a focus for your project based on your experiences of teaching 7–11-year-old learners
- Ideally, the focus will relate to a theme that has arisen as part of this module
- Justify why you have chosen this focus
- Critically evaluate the proposal and its intended impact and outcomes by making links to academic and professional literature
- Carry out a SWOT analysis of your proposal (to be included as an appendix).

Beth yw prosiect ysgol-gymuned? What is a school-community project?

- Yn ôl Llywodraeth Cymru (2022), nodweddion gwaith ysgol-gymuned ydy:
  - datblygu partneriaeth gryf gyda theuluoedd
  - ymateb i anghenion eu cymuned
  - cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill.

Ysgolion Bro [HTML] | LLYW.CYMRU

- Prosiect ysgol-gymuned, felly, ydy prosiect sy'n hyrwyddo'r ffyrdd yma o weithio.

- According to Welsh Government (2022), the characteristics of school-community working are:
  - building a strong partnership with families
  - responding to the needs of their community
  - collaborating effectively with other services.

Community Focused Schools [HTML] | GOV.WALES

- A school-community project is, therefore, a project that promotes these ways of working.

Beth yw cynnig prosiect?

- Cynnig prosiect yw'r ddogfen sy'n hwyluso perthynas broffesiynol rhwng sefydliad a chyfranwyr allanol.
- Yn nodweddiadol, cynnig prosiect yw'r fframwaith cychwynnol ar gyfer sefydlu cysyniad y prosiect ac mae'n cynnwys yr hyn rydych chi am ei gyflawni, pam, esboniad o'r amcanion, a chynlluniau ar gyfer eu cyflawni.
- Mae'n gyffredin i gynnig prosiect gynnwys amlinelliad o weithgareddau neu dasgau a fydd yn gysylltiedig â'r prosiect, dangos arwyddocâd syniad y prosiect penodol, ac egluro gwreiddiau'r prosiect.

https://www.london.gov.uk/sites/default/files/community_projects_handbook_web.pdf



What is a project proposal?

- A project proposal is the document that facilitates a professional relationship between an organisation and outside contributors.

- Typically, a project proposal is the initial framework for establishing the concept of the project and includes what you want to accomplish, why, an explanation of objectives, and plans for achieving them.

- It is common for a project proposal to include an outline of activities or tasks that will be associated with the project, illustrate the significance of this specific project idea, and explain the origins of this project.



https://www.london.gov.uk/sites/default/files/community_projects_handbook_web.pdf

Tasg ddarllen
Reading task

- Darllenwch y wefan hon: How to Write a Project Proposal [2025] • Asana
- Beth yw prif nodweddion cynnig prosiect?

- Read this website: How to Write a Project Proposal [2025] • Asana
- What are the main features of a project proposal?

Camau ar gyfer ysgrifennu cynnig prosiect

Crynodeb – eglurwch yn fras beth sydd i ddod

Eglurwch gefndir eich prosiect – cyflwynwch eich problem mewn manylder

Cyflwynwch ddatrysiad – amlinellwch eich datrysiad i'r broblem

Diffiniwch eich nodau ac amcanion – beth fydd eich prosiect yn cyflawni

Rhestrwch eich adnoddau – tua faint fydd y gost?

Diweddglo – ail-gyflwynwch eich bwriad yn hyderus

Steps to write a project proposal

Executive summary - Briefly explain what's to come

Explain project background - Present your problem in detail

Present a solution - Outline how you'll reach a solution

Define deliverables and goals - Identify what items you'll deliver

List required resources - Calculate your project budget

State conclusion - Confidently restate your case

Sut ydw i'n strwythuro fy aseiniad?

How do I structure my assignment?

Rhan Section	Cyfrif geiriau Word count	Dy nodiadau Your notes
Cyflwyniad **Introduction**	250	
Adolygiad llenyddiaeth **Literature review**	800	
Nodau, amcanion ac ystyriaethau ymarferol **Aims, objectives and practical considerations**	500	
Mesur effaith **Measuring impact**	500	
Gwerthusiad **Evaluation**	500	
Casgliad **Conclusion**	200	

Sut ydw i’n strwythuro fy aseiniad? How do I structure my assignment?

- **Cyflwyniad:**
- Rhowch drosolwg o'ch cyd-destun dewisol ar gyfer eich cynnig a pha agwedd o ddysgu'r dysgwyr bydd yn elwa o'ch prosiect.
- Cyflwynwch y ffocws rydych chi wedi'i ddewis ar gyfer eich cynnig prosiect ac esboniad cryno pam rydych chi wedi dewis y ffocws hwn.
- Cofiwch wneud cysylltiadau â llenyddiaeth o'r paragraff cyntaf un.
- Tua 250 o eiriau

- **Introduction:**
- Provide an overview of your chosen context for your proposal and which aspect of pupils’ learning will benefit from your proposed project.
- Introduce the focus of school-community working you’ve chosen for your project proposal and a brief explanation as to why you’ve chosen this focus.
- Remember to make links to literature from the very first paragraph.
- Approx. 250 words

Sut ydw i’n strwythuro fy aseiniad? How do I structure my assignment?

- **Adolygiad o’r llenyddiaeth:**
- Dechreuwch gyda chyfiawnhad llawn pam eich bod wedi dewis y ffocws hwn.
- Bydd eich cyfiawnhad wedi'i seilio'n llawn ar gyfeiriadau at lenyddiaeth - academaidd a phroffesiynol - ac anghenion yr ysgol a'i chymuned.
- Gelwir hyn hefyd yn adolygiad llenyddiaeth.
- Tua 800 o eiriau.

- **Literature review:**
- Begin with a full justification as to why you’ve chosen this focus.
- Your justification will be based fully on references to literature – academic and professional – and the needs of the school and its community.
- This is also known as a literature review.
- Approx. 800 words.

Sut ydw i’n strwythuro fy aseiniad? How do I structure my assignment?

- **Nodau, amcanion ac ystyriaethau ymarferol:**
- Dyma lle byddwch yn amlinellu nodau, canlyniadau a'r effaith a fwriadwyd.
- Byddwch hefyd yn egluro sut y bydd eich prosiect yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyriaeth fer o staff a chyllideb.
- Trwy'r amser, byddwch yn cyfeirio at lenyddiaeth i gyfiawnhau a gwerthuso'ch dewisiadau a'ch dulliau yn feirniadol.
- Tua 500 o eiriau

- **Aims, objectives and practical considerations:**
- This is where you will outline your project’s aims, outcomes and intended impact.
- You will also explain how your project will be implemented, including a brief consideration of staffing and budget.
- All the time, you will be referring to literature to justify and critically evaluate your choices and approaches.
- Approx. 500 words.

Sut ydw i’n strwythuro fy aseiniad? How do I structure my assignment?

- **Mesur effaith:**
- Dyma lle byddwch chi'n egluro sut y byddwch chi'n mesur yr effaith y bydd eich prosiect yn ei chael – sut fyddwch yn gwybod ei fod yn llwyddiant?
- Byddwch yn seilio'ch esboniad ar enghreifftiau o werthusiadau yn yr ysgol, astudiaethau achos arfer da, a dulliau gwerthuso rydych chi'n gyfarwydd â nhw o'ch ymarfer eich hun.
- Byddwch yn parhau i gyfeirio at lenyddiaeth sy'n cefnogi a / neu'n cwestiynu'ch dull gweithredu.
- Tua 500 o eiriau.

- **Measuring impact:**
- This is where you’ll explain how you will measure the impact your project will have – how will you know it has been a success?
- You will base your explanation on examples of school-based evaluations, good practice case studies, and methods of evaluation you are familiar with from your own practice.
- You will continue to make references to literature that supports and/or questions your approach.
- Approx. 500 words.

Sut ydw i’n strwythuro fy aseiniad? How do I structure my assignment?

- **Gwerthusiad:**
- Dyma lle byddwch chi'n rhoi ystyriaeth lawn i gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r prosiect.
- Gelwir hyn yn ddadansoddiad SWOT.
- Dechreuwch gyda chrynodeb ar y templed ‘dadansoddiad SWOT’ a ddarperir ar Moodle, a’i gynnwys fel atodiad ar ddiwedd eich gwaith.
- Ehangwch ar rai o'r pwyntiau hyn ym mhrif gorff eich aseiniad, gan sicrhau ar yr un pryd eich bod chi'n defnyddio llenyddiaeth i gefnogi neu gwestiynu'ch dadleuon.
- Tua 500 o eiriau

- **Evaluation:**
- This is where you’ll give full consideration to the project’s strengths, weaknesses, opportunities and threats.
- This is known as a SWOT analysis.
- Begin with a summary on the ‘SWOT analysis’ template provided on Moodle, and include it as an appendix at the end of your work.
- Expand on some of these points in the main body of your assignment, while ensuring you use literature to support or question your arguments.
- Approx. 500 words

Sut ydw i'n strwythuro fy aseiniad? How do I structure my assignment?

- **Casgliad:**
- Crynhowch rai o'r negeseuon allweddol y mae eich aseiniad wedi'u cyflwyno ynghylch gweithio ysgol-gymuned, a sut mae hyn wedi effeithio ar eich ymarfer eich hun.
- Efallai yr hoffech chi gyfeirio at Safon Broffesiynol berthnasol i ddangos eich dysgu a'ch camau nesaf fel darpar athro.
- Cofiwch barhau i gyfeirio at lenyddiaeth drwyddi draw.
- Tua 200 o eiriau.

- **Conclusion:**
- Summarise some of the key messages your assignment has presented regarding school-community working, and how this has impacted on your own practice.
- You may wish to make reference to a relevant Professional Standard (QTS) to demonstrate your learning and next steps as a student-teacher.
- Remember to continue making references to literature throughout.
- Approx. 200 words.

Sut ydw i'n cyflwyno fy aseiniad? How do I submit my assignment?

- Templed aseiniad – rhaid cynnwys datganiad Deallusrwydd Artiffisial (DA) a thargedau blaenorol
- Turnitin
- Drafft – gwirio tebygrwydd
- Terfynol
- **Erbyn: 23.59 ar 06/05/25**

- Assignment template – Artificial Intelligence (AI) statement and previous targets must be included
- Turnitin
- Draft – similarity check
- Final
- **Deadline: 23.59 on 06/05/25**

Sut ydw i'n llwyddo?
How do I succeed?

- Sicrhewch fod pob agwedd o'ch gwaith yn cael eu seilio ar lenyddiaeth, a'ch bod yn cyfeirnodi gan ddilyn Harvard.
- Ymgyfarwyddwch gydag amcanion a deilliannau dysgu'r modiwl – mae'r rhain yn dweud wrthych beth dyleh chi ei wybod a medru'i wneud erbyn diwedd y modiwl.
- Edrychwch ar fanyleb yr aseiniad a dilynwch beth mae'n ei ddweud er mwyn gofalu eich bod yn cwrdd gyda holl ofynion yr aseiniad.
- Darllenwch feini prawf asesu Lefel 5. Mae hyn yn dweud wrthych beth sy'n cael ei asesu.

- Ensure all aspects of your work are informed by literature, and reference the literature you use in your work using Harvard.
- Familiarise yourself with the module aims and learning outcomes – these tell you what you need to be able to know and do by the end of the module.
- Look at the assignment specification and follow what it says to ensure you are meeting all the assignment's requirements.
- Read through the assessment criteria for Level 5. These will tell you what is being assessed.

Dechreuwch nawr!
Start now!

Piclry.com

Cefnogaeth bellach

- Sesiwn ‘galw heibio’ Ebril 27 – 13:30-14:30 eams
- Cysylltiadau i ddarlleniadau angenrheidiol ac allweddol ar Moodle.
- Cysylltwch gydag arweinydd y modiwl am gymorth.

Further support

- Assignment ‘drop-in’ April27th – 13:30-14:30 Teams
- Links to essential and key readings on Moodle
- Contact the module lead for assistance.